



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU (COFRESTRU) 2018

Tachwedd 2018

Mae tri math o ddogfen gyfreithiol yn ymdrin â gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheoleiddio cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol a rheoleiddio'u haddasrwydd i ymarfer, sydd **oll** yn gymwys i gofrestriad y person cofrestredig a'i addasrwydd i ymarfer:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**
- **Rheoliadau'r Cynulliad Cenedlaethol;**
- **Cyfes Gofal Cymdeithasol Cymru o Reolau Cofrestru a Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.**

Nid yw cynnwys y Ddeddf na'r Rheoliadau wedi'u cynnwys yn y Rheolau hyn. Felly, dylech ddarllen cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau ar y cyd â'r Rheolau i roi dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithdrefnau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer.

Mae'r Ddeddf ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh>

Y Rheoliadau yw:

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016:

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016:

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016:

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016:

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016:

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016:

Mae'r Rheolau ar gael yma: <https://gofalcymdeithasol.cymru/casgliadau/rheolaugofal-cymdeithasol-cymru-2017>

Y mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 73 (2) a (4), 74(1) a (2), 83(1) a (3), 84(a) (iii) a (b)(ii), 86(1) a (4), 88(1)-(4), 91(2), 92(1), (2) a (3), 106(1) a (2), 107(1) a (2), 113(1) a (2) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"), a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i'r perwyl hwnnw, ac yn sgil ymgynghori yn unol ag adran 75 y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Rheolau a ganlyn:

TREFNIANT Y RHEOLAU

RHAN I

RHAGARWEINIAD

- | | | |
|----|------------------------|---|
| 1. | Enwi, cychwyn a dirymu | 7 |
| 2. | Dehongliad | 7 |

RHAN II

CAIS I GOFRESTRU

- | | | |
|-----|--|----|
| 3. | Ffurf a modd gwneud cais | 13 |
| 4. | Y wybodaeth sydd i'w darparu i'r ymgeisydd | 13 |
| 5. | Y wybodaeth sydd i'w darparu yn y cais gan yr ymgeisydd | 14 |
| 6. | Tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi ei gymhwysu'n briodol | 14 |
| 7. | Tystiolaeth o addasrwydd i ymarfer | 17 |
| 8. | Tystiolaeth o fwriad i ymarfer | 18 |
| 9. | Ffioedd | 19 |
| 10. | Cydnabod cael cais i gofrestru | 19 |
| 11. | Gofyniad am wybodaeth ychwanegol | 19 |
| 12. | Caniatáu cais i gofrestru | 19 |
| 13. | Gwrthod cais i gofrestru | 20 |
| 14. | Hysbysiad o benderfyniad mewn perthynas â cheisiadau i gofrestru | 21 |

RHAN III

CAIS I ADNEWYDDU

- | | | |
|-----|---|----|
| 15. | Adnewyddu cofrestrriad a myfyrwyr gwaith cymdeithasol | 22 |
| 16. | Ffurf a modd gwneud cais i adnewyddu | 22 |
| 17. | Y wybodaeth sydd i'w darparu i'r ymgeisydd | 22 |
| 18. | Y wybodaeth sydd i'w darparu yn y cais gan yr ymgeisydd | 22 |
| 19. | Y cymwysterau a'r hyfforddiant y mae eu hangen ar gyfer adnewyddu | 22 |
| 20. | Ffioedd | 23 |
| 21. | Cydnabod cael cais i adnewyddu cofrestrriad | 23 |

22.	Gofyniad am wybodaeth ychwanegol	23
23.	Gwrthod cais i gofrestru	24
24.	Hysbysiad o benderfyniad mewn perthynas â cheisiadau i adnewyddu	24

RHAN IV

HYD A DARFODIAD COFRESTRIAD

25.	Hyd a darfodiad cofrestriad	25
-----	-----------------------------	----

RHAN V

DYLETSWYDD I HYSBYSU'R COFRESTRYDD AM NEWIDIADAU I WYBODAETH GOFRESTRU

26.	Dyletswydd i hysbysu'r cofrestrydd am newidiadau i wybodaeth gofrestru	27
-----	--	----

RHAN VI

DILEU COFNODION O'R GOFRESTR

27.	Dileu cofnodion o'r gofrestr drwy gytundeb	28
28.	Marwolaeth person cofrestredig	29
29.	Cofnodion sy'n seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol	29
30.	Dileu o'r gofrestr am resymau eraill	29

RHAN VII

DYCHWELYD I'R GOFRESTR

31.	Cais i ddychwelyd i'r gofrestr	31
32.	Hysbysiad o ganiatáu cais i ddychwelyd i'r gofrestr	32
33.	Hysbysiad o wrthod cais i ddychwelyd i'r gofrestr	32

RHAN VIII

ADFER I'R GOFRESTR

34.	Cais i adfer yn dilyn dileu drwy gytundeb neu ddileu yn seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol	33
-----	---	----

35.	Cais i adfer yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer	33
36.	Hysbysiad o ganiatáu cais i adfer	33
37.	Hysbysiad o wrthod cais i adfer i'r gofrestr	34

RHAN IX

FFIOEDD

38.	Ffi gwneud cais a ffi adnewyddu	35
39.	Ffi flynyddol	35
40.	Ffi dychwelyd i ymarfer	35

ATODLENNI

ATODLEN 1	37
Cyrsiau a gofynion hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol	
ATODLEN 2	38
Gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol	
ATODLEN 3	58
Ffioedd a godir gan Ofal Cymdeithasol Cymru	
ATODLEN 4	59
Datblygiad proffesiynol parhaus	
ATODLEN 5	60
Rhaglen gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso	
ATODLEN 6	61
Dychwelyd i ymarfer	

RHAN I

RHAGARWEINIAD

Enwi, cychwyn a dirymu

1. (1) Caiff y Rheolau hyn eu henwi'n Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2018(b) a byddant yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2018.
- (2) Caiff Rheolau Cyngor Gofal Cymru (Cofrestru) 2015(b) ("Rheolau 2015(b)") a Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2017 ("Rheolau 2017") eu dirymu trwy hyn ac eithrio y bydd Rheolau 2017 yn parhau'n gymwys mewn perthynas â cheisiadau i gofrestru, adnewyddu, dychwelyd i'r Gofrestr neu ddileu o'r Gofrestr a dderbyniwyd rhwng 3 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 (yn ddarostyngedig i Reolau 38(2) a 39(1) y Rheolau hyn).
- (3) Caiff Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2018 ("Rheolau 2018") eu dirymu trwy hyn ac eithrio y bydd Rheolau 2018 yn parhau'n gymwys mewn perthynas â cheisiadau i gofrestru, adnewyddu, dychwelyd i'r Gofrestr neu ddileu o'r Gofrestr a dderbyniwyd ar neu wedi 1 Ebrill 2018, ond cyn 1 Tachwedd 2018 (yn ddarostyngedig i Reolau 38(2) a 39(1) y Rheolau hyn).

Dehongliad

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni fynna'r cyd-destun fel arall:

ystyr "**Deddf**" yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "**rhan ychwanegol**" yw rhan o'r gofrestr ar gyfer pob disgrifiad o weithiwr gofal cymdeithasol a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau o dan adran 80(1)(b) y Ddeddf;

ystyr "**Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol**" yw'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol, sy'n gosod safonau cyffredin ar gyfer cyfnod sefydlu gweithwyr gofal cymdeithasol, a gyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

ystyr "**ymgeisydd**" yw person sy'n gwneud cais i gofrestru, adfer, adnewyddu neu ddychwelyd i'r gofrestr fel gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr gofal cymdeithasol neu fyfyrwr gwaith cymdeithasol;

mae'r "**rhestr wahardd**" yn rhestr a ddiffinnir yn adran 117(3) y Ddeddf;

ystyr "**Cyngor Gofal**" yw un o'r cyrff sy'n cadw cofrestr berthnasol fel y cyfeirir atynt yn adran 111(4) (b), (c) a (d) y Ddeddf;

ystyr "**Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol**" yw'r côd ymarfer sy'n cyflwyno'r safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir oddi wrth weithwyr gofal

cymdeithasol, a gyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan Adran 112(1)(a) y Ddeddf;

ystyr “**cwrs gradd**” yw cwrs gradd israddedig neu ôl-raddedig a gymeradwyir gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn unol â Rheolau Cymeradwyo ac Ymweld â Chyrsiau Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol (Cymru) 2017 Gofal Cymdeithasol Cymru;

ystyr “**Cyfarwyddeb 2005/36/EC**” yw'r Gyfarwyddeb ar Gydabod Cymwysterau Proffesiynol, fel y'i diwygir gan Gyfarwyddeb 2013/55/EU yr Undeb Ewropeaidd;

ystyr “**proses electronig**” yw proses a gymeradwyir gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer cyfnwid gwybodaeth yn electronig rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru ac ymgeisydd, person cofrestredig, cyflogwr, corff rheoleiddiol, prifysgol neu Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyflwyno cais neu gadarnhad o wybodaeth mewn modd electronig mewn cysylltiad â chais;

mae “**cyflogwr**” yn cynnwys asiantaethau cyflogi, pobl hunangyflogedig ac unrhyw gyflogwr gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol (yn gweithio yn rhinwedd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol) y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwybod amdanynt;

ystyr “**cofnod**” yw'r manylion a gofnodir ar y gofrestr fel y'u pennir yn rheol 4 Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2017;

ystyr “**cofrestr gyfatebol**” yw cofrestr a ddelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon neu Gyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban;

ystyr “**Rheolau Addasrwydd i Ymarfer**” yw Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer) 2017;

ystyr “**gorchymyn atal dros dro amhenodol**” yw gorchymyn a wnaed gan banel addasrwydd i ymarfer o dan adran 154(10) y Ddeddf;

ystyr “**gorchymyn atal dros dro interim**” yw gorchymyn sy'n atal dros dro gofrestriad person cofrestredig o dan y Rheolau Gorchymynion Interim;

ystyr “**rheolwr**” yw person sy'n rheoli man y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo neu ohono yng Nghymru;

ystyr “**hysbysiad**” yw gwybodaeth yn ymwneud â chofrestriad person cofrestredig, a ddyroddir gan y cofrestrydd neu'r person cofrestredig (neu ei gynrychiolydd);

ystyr “**rhan o'r gofrestr**” yw'r rhan o'r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol neu'r rhan o'r gofrestr ar gyfer pob disgrifiad o weithiwr gofal cymdeithasol a bennir yn y rheoliadau o dan adran 80(1)(b) y Ddeddf neu'r rhan o'r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol neu reolwyr gofal cymdeithasol ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol;

ystyr “**cofrestr**” yw’r gofrestr a gedwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 y Ddeddf;

ystyr “**person cofrestredig**” yw person sydd wedi ei gofrestru yn y rhan gweithwyr cymdeithasol, mewn rhan ychwanegol neu ran y gweithwyr cymdeithasol sy’n ymwelwyr Ewropeaidd neu ran y rheolwyr gofal cymdeithasol sy’n ymwelwyr Ewropeaidd, o’r gofrestr, ac mae’n cynnwys person:

- (a) y byddai ei gofrestriad wedi darhod o dan adran 87(1) y Ddeddf oni bai am y ffaith bod isadran (2) o’r adran honno yn gymwys i’r person;
- (b) y mae gorchymyn atal dros dro yn cael effaith mewn cysylltiad ag ef;
- (c) y mae gorchymyn atal dros dro interim yn cael effaith mewn cysylltiad ag ef;
- (d) y mae gorchymyn atal dros dro amhenodol yn cael effaith mewn cysylltiad ag ef;

ystyr “**cofrestrydd**” yw’r unigolyn a benodwyd yn unol ag adran 81(1) a (2) y Ddeddf;

ystyr “**cofrestriad**” yw’r cofnod ar y gofrestr sy’n ymwneud â pherson cofrestredig penodol;

ystyr “**gwasanaeth rheoleiddiedig**” yw:

- (a) gwasanaeth cartref gofal, fel y’i diffinnir yn adran 2 y Ddeddf;
- (b) gwasanaeth llety diogel, fel y’i diffinnir yn adran 2 y Ddeddf;
- (c) gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, fel y’i diffinnir yn adran 2 y Ddeddf;
- (d) gwasanaeth mabwysiadu, fel y’i diffinnir yn adran 2 y Ddeddf;
- (e) gwasanaeth maethu, fel y’i diffinnir yn adran 2 y Ddeddf;
- (f) gwasanaeth lleoli oedolion, fel y’i diffinnir yn adran 2 y Ddeddf;
- (g) gwasanaeth eirioli, fel y’i diffinnir yn adran 2 y Ddeddf;
- (h) gwasanaeth cymorth cartref, fel y’i diffinnir yn adran 2 y Ddeddf;
- (i) unrhyw wasanaeth arall sy’n cynnwys y ddarpariaeth o ofal a chymorth yng Nghymru fel y’i rhagnodir mewn Rheoliadau gan Weinidogion Cymru;

ystyr “**corff rheoleiddiol**” yw corff yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall sy’n gyfrifol am reoleiddio, archwilio, arolygu, trwyddedu neu adolygu gofal cymdeithasol, darpariaeth iechyd neu ddarpariaeth addysg, neu reoleiddio neu drwyddedu proffesiwn gofal cymdeithasol, iechyd neu addysgu;

ystyr “**corff perthnasol**” yw:

- (a) y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;
- (b) y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;
- (c) Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban;
- (d) Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon;
- (e) corff y tu allan i’r Deyrnas Unedig sy’n gyfrifol am reoleiddio gweithgareddau a fyddai, yng Nghymru, yn cael eu rheoleiddio gan Gofal Cymdeithasol Cymru;
- (f) corff rhagnodedig;

ystyr “**Gwladwriaeth Ewropeaidd berthnasol**” yw Gwladwriaeth AEE neu’r Swistir;

ystyr “**gwaith cymdeithasol perthnasol**” yw gwaith cymdeithasol sy’n ofynnol mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg neu wasanaethau cymdeithasol a ddarperir yng Nghymru;

ystyr “**darparwr gwasanaeth**” yw person sydd wedi ei gofrestru o dan adran 7 y Ddeddf i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig;

ystyr “**Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru**” yw’r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol sy’n pennu safonau cyffredin ar gyfer cyfnod sefydlu gweithwyr gofal cymdeithasol, a gyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru, ac a ddisodlwyd gan “Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol” o 1 Ebrill 2018;

ystyr “**Gofal Cymdeithasol Cymru**” yw’r corff corfforaethol o’r enw Gofal Cymdeithasol Cymru, sef Cyngor Gofal Cymru yn flaenorol;

ystyr “**gweithiwr gofal cymdeithasol**” yw, at ddibenion y Rheolau hyn, unrhyw berson y mae’r disgrifiadau canlynol o weithiwr gofal cymdeithasol yn berthnasol iddo:

- (a) person sy’n rheoli man gwaith y darperir gwasanaethau rheoledig ynddo neu ohono; neu
- (b) berson sydd, yn ystod ei gyflogaeth gyda darparwr gwasanaeth, yn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad â:
 - (i) gwasanaeth cartref gofal yn ystyr Rhan 1 y Ddeddf, sy’n cael ei ddarparu’n gyfan gwbl neu’n bennaf i blant, neu
 - (ii) wasanaeth llety diogel yn ystyr paragraff 2 i Atodlen 1 y Ddeddf a ddarperir gan y darparwr hwnnw;

ystyr “**gweithiwr cymdeithasol**” yw’r ystyr a roddir iddo gan adran 79(1)(a) y Ddeddf, sef person sy’n ymgymryd â gwaith cymdeithasol perthnasol yng Nghymru;

ystyr “**rhan gweithwyr cymdeithasol**” yw’r rhan o’r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol;

ystyr “**myfyriwr gwaith cymdeithasol**” yw:

- (a) person sy’n cymryd rhan mewn cwrs a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf;
- (b) person sy’n cymryd rhan mewn rhaglen gymhwysio mewn gwaith cymdeithasol rywle arall yn y Deyrnas Unedig, y mae Cyngor Gofal wedi’i chymeradwyo; neu
- (c) berson sy’n cymryd rhan mewn rhaglen gymhwysio mewn gwaith cymdeithasol y mae Cyngor Gofal wedi’i chymeradwyo ac yr ymgymerir â rhan o’r rhaglen yng Nghymru, sydd wedi neu sy’n dymuno cael ei gofrestru yn rhan gweithwyr cymdeithasol y gofrestr;

ystyr "**Rheoliadau Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol**" yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2018;

ystyr "**gorchymyn atal dros dro**" yw gorchymyn a wnaed gan banel addasrwydd i ymarfer i atal dros dro gofrestriad y person cofrestredig o dan y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer;

yn ystyr "**gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol**" at ddibenion adran 84(a)(iii) y Ddeddf, y mae person yn bodloni'r gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol os yw ef neu hi:

- (a) wedi cwblhau hyfforddiant a bennir yn Atodlen 1; neu
- (b) wedi cwblhau hyfforddiant neu ymarfer a aseswyd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru neu Gyngor Gofal yn eu hystyried yn gyfwerth;

yn ystyr "**gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol**" at ddibenion adran 84(b)(ii) y Ddeddf, y mae person yn bodloni'r gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn perthynas â gwaith gofal cymdeithasol o ddisgrifiad penodol os yw ef neu hi:

- (a) wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol a bennir yn Atodlen 2; neu
- (b) yn dal cymhwyster gofal cymdeithasol arall y mae Gofal Cymdeithasol Cymru neu Gyngor Gofal yn ei ystyried yn gyfwerth;

ystyr "**ymgymeriadau**" yw ymgymeriadau y mae'r person cofrestredig wedi cytuno i gydymffurfio â hwy o dan adrannau 126(3)(d), 136(1), 152 (5) a (6), 153(4), 154(5) neu 155(7) y Ddeddf;

ystyr "**prifysgol**" yw'r brifysgol neu'r sefydliad addysg uwch sy'n darparu'r cwrs gradd a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf i bersonau sy'n dymuno dod yn weithwyr cymdeithasol;

ystyr "**rhan gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n ymwelwyr Ewropeaidd**" yw'r rhan o'r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, fel y'u diffinnir yn adran 80(2)(c) y Ddeddf, sydd ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol;

ystyr "**rhan rheolwyr gofal cymdeithasol sy'n ymwelwyr Ewropeaidd**" yw'r rhan o'r gofrestr ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol, fel y'u diffinnir yn adran 80(2)(d) y Ddeddf, sydd ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol.

(2) Yn y rheolau hyn, oni fynna'r cyd-destun fel arall:

- (a) bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog a bydd geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
- (b) bydd unrhyw gyfeiriad at reol neu ran â rhif iddi yn gyfeiriad at y rheol neu'r rhan sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;
- (c) bydd unrhyw gyfeiriad mewn rheol neu ran at baragraff â rhif iddo, yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu'r rhan honno;

- (d) bydd unrhyw gyfeiriad mewn paragraff mewn rheol neu ran at is-baragraff â rhif iddo yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu'r rhan honno.

RHAN II

CAIS I GOFRESTRU

Ffurf a modd gwneud cais

3. (1) Cyflwynir cais i gofrestru i'r cofrestrydd ar y ffurf a gymeradwyir gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.
- (2) Pan fo ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol neu'n weithiwr gofal cymdeithasol (ac eithrio myfyriwr), at ddibenion cymeradwyo'r cais, rhaid iddo gael ei gydarwyddo (neu ei gadarnhau drwy broses electronig):
 - (a) gan gyflogwr, pan fo'r ymgeisydd mewn gwaith; neu
 - (b) gan gyn-gyflogwr gofal cymdeithasol neu berson arall sy'n dderbyniol i'r cofrestrydd fel un sy'n addas i ddarparu cymeradwyaeth o'r fath, pan fo'r ymgeisydd yn hunangyflogedig, wedi ei gyflogi gan aelod o'r teulu neu pan na fydd yn gyflogedig.
- (3) Rhaid i gais gael ei lofnodi gan yr ymgeisydd neu ei gadarnhau gan yr ymgeisydd drwy broses electronig.
- (4) Rhaid cyflwyno cais i'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig.

Y wybodaeth sydd i'w darparu i'r ymgeisydd

4. (1) Bydd y cais yn cynnwys rhybudd i'r ymgeisydd:
 - (a) ynghylch canlyniadau (gan gynnwys dileu o'r gofrestr) darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol; ac
 - (b) y caiff Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried bod methu â hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru am unrhyw newidiadau perthnasol yn y wybodaeth a ddarperir, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (gan gynnwys, pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr gofal cymdeithasol yn dechrau gwaith gofal cymdeithasol â disgrifiad sy'n wahanol i'r hyn a bennir yn ei gais, os nad yw'r modd y gwnaeth yr ymgeisydd fodloni'r gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yn wreiddiol yn bodloni'r gofyniad hyfforddiant ar gyfer y disgrifiad newydd o waith gofal cymdeithasol; a, phan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, newid i gwrs gradd neu beidio â chymryd rhan mewn cwrs gradd), yn gamymddwyn difrifol at ddiben adran 117(1)(b) y Ddeddf; ac
 - (c) y dylai pob ymgeisydd (gan gynnwys myfyrwr gwaith cymdeithasol), ar gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, gydymffurfio â'r Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a ddyroddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru a gall methu â chydymffurfio ag unrhyw safon yn y Cod gael ei ystyried mewn achosion o dan Reolau Addasrwydd i Ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru.

Y wybodaeth i'w darparu yn y cais gan yr ymgeisydd

Enw, cyfeiriad, rhan o'r gofrestr etc.

5. (1) Rhaid i ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth ganlynol mewn cais i gofrestru:
- (a) manylion personol yr ymgeisydd, gan gynnwys enw llawn, yr enw y mae'r ymgeisydd yn bwriadu ei ddefnyddio er mwyn ymarfer, unrhyw enw/enwau blaenorol neu eraill, dyddiad geni, manylion cyswllt gan gynnwys cyfeiriad post a chyfeiriadau e-bost a rhif ffôn;
 - (b) y rhan neu'r rhannau o'r gofrestr y gwneir cais i gofrestru ynddi;
 - (c) enw a chyfeiriad cyflogwr neu gyflogwyr gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol yr ymgeisydd (os oes un/rhai);
 - (d) datganiad bod yr ymgeisydd wedi darllen a deall y Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol ac ymgymeriad i gadw at y Côd;
 - (e) (os bydd ei hangen) tystiolaeth o hunaniaeth yr ymgeisydd fel y bo'n foddhaol i Ofal Cymdeithasol Cymru;
 - (f) pan fo ymgeisydd yn hunangyflogedig, wedi ei gyflogi gan aelod o'r teulu neu pan na fydd yn gyflogedig, caiff y cofrestrydd ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu cymeradwyaeth ar ffurf a bennir gan y cofrestrydd at ddibenion rheolau 3(2)(b), 7(1)(a)(i) a 7(1)(f), a phan fo hyn yn ofynnol, rhaid i'r geirdaon cymeriad gael eu llofnodi (neu eu cadarnhau drwy broses electronig) gan berson:
 - (i) nad yw'n perthyn i'r ymgeisydd yn enedigol neu drwy briodas;
 - (ii) nad yw mewn perthynas bersonol â'r ymgeisydd nac yn byw gyda'r ymgeisydd; ac
 - (iii) sydd wedi adnabod yr ymgeisydd am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf.

Tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi ei gymhwyso'n briodol

6. (1) Rhaid i gais i gofrestru gynnwys tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi ei gymhwyso'n briodol yn unol â gofynion y rheol hon.
- (2) Pan fo gan ymgeisydd unrhyw gymwysterau eraill, wybodaeth arall neu brofiad arall sy'n berthnasol i gofrestru ac sydd wedi'u rhagnodi mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 91(1)(c) y Ddeddf, gall fod yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o'r cymwysterau, y wybodaeth neu'r profiad hynny.

Gweithwyr cymdeithasol

- (3) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o ran:
- (a) naill ai:
 - (i) gwblhau'n llwyddiannus gwrs a gymeradwyir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf neu raglen gymhwyso mewn gwaith cymdeithasol rywle arall yn y Deyrnas Unedig, y mae Cyngor Gofal wedi'i

- chyperadwyo, ar gyfer personau sy'n dymuno dod yn weithwyr cymdeithasol; neu
- (ii) fodloni gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol y cyfeirir ato yn Atodlen 1;
 - (b) enw darparwr y cwrs;
 - (c) enw'r corff a ddyfarnodd y cymhwyster(cymwysterau);
 - (d) dyddiad dyfarnu'r cymhwyster(cymwysterau);
 - (e) dyddiadau'r cwrs;
 - (f) yr enw y delir y cymhwyster(cymwysterau) ynddo.
- (4) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol y mae paragraff 1 o Atodlen 6 yn berthnasol iddo, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ei fod yn bodloni'r gofynion dychwelyd i ymarfer ym mharagraffau 2 neu 3, yn ôl y digwydd, y Atodlen honno.

Gweithwyr gofal cymdeithasol

- (5) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr gofal cymdeithasol, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o ran:
- (a) naill ai:
 - (i) gwblhau'n llwyddiannus gwrs a gymeradwyir gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer personau sy'n dymuno dod yn weithwyr gofal cymdeithasol; neu
 - (ii) fodloni gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn perthynas â'r disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'r ymgeisydd yn dymuno gweithio ynddo, y cyfeirir ato yn Atodlen 2;
 - (b) enw darparwr y cwrs;
 - (c) enw'r corff a ddyfarnodd y cymhwyster(cymwysterau);
 - (d) dyddiad dyfarnu'r cymhwyster(cymwysterau);
 - (e) dyddiadau'r cwrs;
 - (f) yr enw y delir y cymhwyster(cymwysterau) ynddo.
- (6) Pan fo'r ymgeisydd:
- (a) yn weithiwr gofal cymdeithasol ar yr unig sail ei fod yn dod o fewn y disgrifiadau yn rheoliad 3(2)(b)(i) neu (ii) Rheoliadau pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol; a
 - (b) heb gwblhau'r gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn perthynas â'r disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'n dymuno gweithio ynddo,

tystiolaeth o gwblhau hyfforddiant yn unol â Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol, Cymru, neu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i llofnodi (neu ei chadarnhau drwy broses electronig) gan gyflogwr yr ymgeisydd, neu, pan nad yw'r ymgeisydd yn gyflogedig, wedi ei llofnodi (neu ei chadarnhau drwy broses electronig) gan gyn-gyflogwr.¹

¹ Bydd y gofynion llawn yn dibynnu ar is-ran y gofrestr y mae'r gweithiwr yn gwneud cais amdani a phryd y maent yn gwneud cais. O fis Ebrill 2020, bydd angen i bob gweithiwr sy'n gwneud cais i gofrestru nad oes ganddo'r cymhwyster gofynnol gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer lechyd a GoLefel 2. fal Cymdeithasol a chymhwyster craidd

(7) Pan fo'r ymgeisydd:

- (a) yn weithiwr gofal cymdeithasol ar yr unig sail ei fod yn dod o fewn y disgrifiadau yn rheoliad 3(2)(d)(i) neu (ii) Rheoliadau Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol;
- (b) yn gwneud cais i gofrestru ar ddyddiad cyn 1 Ebrill 2020; a
- (c) heb gwblhau'r gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cartref fel y'i disgrifir yn Atodlen 2,
 - (i) tystiolaeth eu bod wedi cwblhau gweithlyfr Rhan 1 neu 2 o'r Fframwaith sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (fersiwn 2018) yn llwyddiannus
 - Egwyddorion a Gwerthoedd (Oedolion), os yn gweithio gyda oedolion
 - Egwyddorion a Gwerthoedd (Plant a Phobl ifanc) os yn gweithio gyda plant a phobl ifanc; neu
 - (ii) Tystiolaeth o gwblhau Cymhwyster Craidd Lefel 2 ar gyfer Sefydlu Gofal Cymdeithasol (Cymru), neu
 - (iii) yn achos ymgeiswyr â thair blynedd neu fwy o brofiad o weithio yn y sector, Datganiad o Gymhwysedd wedi'i lofnodi gan y rheolwr cofrestredig a thystiolaeth o wybodaeth a sgiliau perthnasol i'w ategu.

(8) Pan fo'r ymgeisydd:

- (a) yn rheolwr gwasanaeth cartref gofal i oedolion;
- (b) yn Nyrs Gofrestredig Lefel Gyntaf; ac
- (c) nad oes ganddo Ddiploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon,

tystiolaeth o gwblhau NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) (a aseswyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol).

Pan fo'r ymgeisydd:

- (a) Yn rheolwr gwasanaeth gofal cartref
- (b) Yn Nyrs Gofrestredig Lefel Gyntaf; ac
- (c) nad oes ganddo Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Oedolion neu Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon,

tystiolaeth o gwblhau NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) (a aseswyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol).

- (9) Pan fo'r ymgeisydd yn rheolwr gwasanaeth rheoledig fel y'i pennir yn rheoliad 3(2)(a) Rheoliadau Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol ac mae wedi ymgymryd â chwrs hyfforddi mewn gwaith cymdeithasol perthnasol y tu allan i'r Deyrnas Unedig:

- (a) a bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydnabod bod y cwrs hwnnw o safon sy'n ddigonol ar gyfer cofrestru; neu
- (b) na chydabyddir y cwrs hwnnw yn y fath fodd, ond bod yr ymgeisydd wedi gwneud unrhyw hyfforddiant ychwanegol neu wedi cwblhau a phasio prawf tueddfryd Gofal Cymdeithasol Cymru neu wedi cwblhau a phasio cyfnod o ymarfer a aseswyd fel y bo'n ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru,

rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o gwblhau'r cwrs, neu'r hyfforddiant ychwanegol, neu brawf tueddfryd Gofal Cymdeithasol Cymru, neu'r cyfnod o ymarfer a aseswyd, yn llwyddiannus, fel y bo'n ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru (yn ôl y digwydd).

Myfyriwr gwaith cymdeithasol

(10) Pan fo'r ymgeisydd yn fyfyriwr gwaith cymdeithasol:

- (a) enw a chyfeiriad darparwr y cwrs sy'n darparu neu a fydd yn darparu'r cwrs gradd; a
- (b) cadarnhad bod yr ymgeisydd:
 - (i) yn ymgymryd â chwrs gradd yng Nghymru, y mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i gymeradwyo yn unol â Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cymeradwyo ac Ymweld â Chyrsiau Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol (Cymru)) 2017; neu
 - (ii) yn ymgymryd â rhaglen gymhwysu mewn gwaith cymdeithasol rywle arall yn y DU, y mae Cyngor Gofal wedi'i chymeradwyo; neu
 - (iii) yn ymgymryd â rhaglen gymhwysu mewn gwaith cymdeithasol rywle arall yn y DU, y mae Cyngor Gofal wedi'i chymeradwyo ac yr ymgwymerir â rhan o'r rhaglen yng Nghymru; a
- (c) cadarnhad bod yr ymgeisydd wedi derbyn cynnig gan ddarparwr y cwrs gradd yng Nghymru neu ddarparwr y rhaglen gymhwysu rywle arall yn y DU, yn ôl y digwydd.

Tystiolaeth o addasrwydd i ymarfer

- 7. (1) Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth, er boddhad y cofrestrydd, nad oes amhariad ar addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer ac, i'r perwyl hwn, bydd yn darparu'r canlynol mewn perthynas â'r cais:
 - (a) pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol, yn weithiwr gofal cymdeithasol neu'n fyfyriwr gwaith cymdeithasol, tystiolaeth er boddhad y cofrestrydd:
 - (i) o gymeriad a chymhwysedd yr ymgeisydd, fel y maent yn berthnasol i addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer y gwaith a ddisgwylir gan weithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol mewn perthynas â'r disgrifiad o'r gwaith gofal cymdeithasol y mae'r ymgeisydd yn dymuno ymarfer ynddo (gan gynnwys cymeradwyaeth gan gyflogwr neu, pan fo'r ymgeisydd yn hunangyflogedig, wedi ei gyflogi gan aelod o'r teulu neu nad yw yn gyflogedig, gan gyflogwr gofal cymdeithasol neu berson

- arall sy'n dderbyniol i'r cofrestrydd fel un sy'n addas i roi cymeradwyaeth o'r fath);
- (ii) addasrwydd corfforol a meddyliol yr ymgeisydd i ymarfer ym maes gwaith cymdeithasol neu yn y disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'r ymgeisydd yn dymuno ymarfer ynddo;
- (b) manylion unrhyw gollfarnau troseddol, rhybuddiadau ffurfiol a roddwyd gan yr Heddlu (heblaw am gollfarnau neu rybuddiadau wedi'u gwarchod) ac unrhyw achosion troseddol y mae'r ymgeisydd wedi cael ei gyhuddo'n ffurfiol ohonynt;
- (c) manylion proffesiynol yr ymgeisydd (os oes rhai), a ph'un ai a yw'r ymgeisydd wedi gwneud cais i gofrestru ac wedi'i wrthod, neu wedi cofrestru neu wedi cofrestru'n flaenorol, gan gynnwys y rhesymau dros adael cofrestr, gyda chorff rheoleiddiol yn y Deyrnas Unedig neu y tu allan i'r Deyrnas Unedig;
- (d) manylion unrhyw ddyfarniad gan gorff perthnasol yn ymwneud ag addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer;
- (e) datganiad nad yw'r ymgeisydd wedi ei gynnwys ar restr wahardd;
- (f) (os bydd y cofrestrydd yn gofyn amdanynt) ffurflen wedi'i llenwi, dogfennau gofynnol a ffi briodol, at ddiben cael tystysgrif cofnod troseddol manwl, o'r enw datgeliad manwl, o dan Adran 115(1) Deddf yr Heddlu 1997.

Tystiolaeth o fwriad i ymarfer

8. (1) Yn achos gweithiwr cymdeithasol, rhaid i'r cais gynnwys cadarnhad bod yr ymgeisydd yn bwriadu ymarfer gwaith cymdeithasol perthnasol, yn ystod y cyfnod cofrestru y gwneir cais amdano, a gall fod angen i'r cais gynnwys tystiolaeth o hynny.
- (2) Yn achos gweithiwr gofal cymdeithasol, rhaid i'r cais gynnwys cadarnhad bod yr ymgeisydd yn bwriadu ymarfer gwaith person sydd wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi, yn ystod y cyfnod cofrestru y gwneir cais amdano, a gall fod angen i'r cais gynnwys tystiolaeth o hynny.
- (3) Yn achos gweithiwr cymdeithasol sy'n ymweld o Wladwriaeth Ewropeaidd berthnasol, rhaid i'r ymgeisydd gwblhau'r datganiad yn unol ag Erthygl 7 Cyfarwyddeb 2005/36/EC yn cadarnhau ei fod yn bwriadu ymarfer gwaith cymdeithasol perthnasol yng Nghymru fel gweithiwr cymdeithasol Ewropeaidd sy'n ymweld, ar sail dros dro ac achlysurol.
- (4) Yn achos rheolwyr gofal cymdeithasol sy'n ymweld o Wladwriaeth Ewropeaidd berthnasol, rhaid i'r ymgeisydd gwblhau'r datganiad yn unol ag Erthygl 7 Cyfarwyddeb 2005/36/EC yn cadarnhau ei fod yn bwriadu ymarfer gwaith cymdeithasol perthnasol yng Nghymru fel rheolwr gofal cymdeithasol Ewropeaidd sy'n ymweld, ar sail dros dro ac achlysurol.

Ffioedd

9. (1) Rhaid i'r cais gynnwys y ffi neu'r ffioedd priodol fel y'u pennir yn Atodlen 3.

Cydnabod cael cais i gofrestru

10. (1) Bydd cydnabyddiaeth o gael cais i gofrestru yn cael ei darparu i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen tridiau o gael y cais.

Gofyniad i ddarparu gwybodaeth ychwanegol

11. (1) Caiff y cofrestrydd, at ddibenion penderfynu ar y cais:
- (a) pan na fydd yr ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth am un neu fwy o'r materion a amlinellir yn Rheolau 5 i 9, ofyn am y wybodaeth oddi wrth yr ymgeisydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen y cyfnod 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl rhoi'r cais i'r ymgeisydd; neu
 - (b) ofyn am wybodaeth neu dystiolaeth sy'n ychwanegol i'r hyn a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, oddi wrth yr ymgeisydd ac unrhyw berson neu ffynhonnell arall.
- (2) Pan fo'r cofrestrydd yn cael gwybodaeth o dan baragraff (1)(b) uchod, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd fod y wybodaeth wedi dod i law, a bydd y cofrestrydd yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd roi sylwadau ar y wybodaeth honno o fewn y cyfnod cyn pen 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl rhoi'r wybodaeth i'r ymgeisydd.

Caniatáu cais i gofrestru

12. (1) Wrth benderfynu bod gofynion adrannau 83(2)(a) ac 84 y Ddeddf ('Wedi ei gymhwyso'n briodol') wedi'u bodloni, rhaid i'r cofrestrydd fod yn fodlon ynghylch y materion sydd wedi'u hamlinellu yn isadrannau (2), (3) neu (4) isod.
- (2) Pan fo'r cais i gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol, rhaid i'r cofrestrydd fod yn fodlon bod tystiolaeth wedi'i darparu:
- (a) naill ai:
 - (i) bod yr ymgeisydd wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs i weithwyr cymdeithasol a gymeradwyir gan Ofal Cymdeithasol Cymru, neu raglen gymhwyso mewn gwaith cymdeithasol rywle arall yn y Deyrnas Unedig, y mae Cyngor Gofal wedi'i chymeradwyo, i bersonau sydd yn weithwyr cymdeithasol neu sy'n dymuno dod yn weithwyr cymdeithasol; neu
 - (ii) ei fod yn bodloni'r gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol; a
 - (b) phan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol y mae paragraff 1 i Atodlen 6 yn gymwys iddo, mae'r ymgeisydd wedi bodloni gofynion dychwelyd i ymarfer paragraffau 2 neu 3, yn ôl y digwydd, o'r Atodlen honno.
- (3) Yn achos cais i gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol heblaw am weithiwr cymdeithasol, mae'r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth bod:

- (a) yr ymgeisydd wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs a gymeradwyir gan Ofal Cymdeithasol Cymru i bersonau sy'n dymuno dod yn weithwyr gofal cymdeithasol, neu sy'n bodloni'r gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ar gyfer y disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'r cais yn ymwneud ag ef; neu
- (b) pan fo'r ymgeisydd:
 - (i) yn weithiwr gofal cymdeithasol ar yr unig sail ei fod yn dod o fewn y disgrifiadau yn rheoliad 3(2)(b)(i) neu (ii) Rheoliadau Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol; a
 - (ii) heb gwblhau'r gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn perthynas â'r disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'n dymuno gweithio ynddo,

tystiolaeth o gwblhau hyfforddiant yn unol â Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru, wedi'i llofnodi (neu ei chadarnhau drwy broses electronig) gan gyflogwr yr ymgeisydd, neu, pan nad yw'r ymgeisydd yn gyflogedig, wedi ei llofnodi (neu ei chadarnhau drwy broses electronig) gan gyn-gyflogwr.²
- (4) Pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, bod darparwr cwrs wedi derbyn yr ymgeisydd i gymryd rhan mewn cwrs gradd a gymeradwyir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a).

Gwrthod cais i gofrestru

- 13. (1) Rhaid i'r cofrestrydd wrthod cais i gofrestru:
 - (a) os nad yw'n fodlon bod un neu fwy o'r materion a amlinellir yn Rheolau 5, 6(1), (3) i (9), 8 neu 9, fel bo'r gofyn, wedi'u bodloni; neu
 - (b) yn ddarostyngedig i baragraff (2), os yw'r ymgeisydd wedi methu â darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn Rheol 11(1)(a).
- (2) Pan fo'r ymgeisydd wedi methu â darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn Rheol 11(1)(a) a bod y wybodaeth y gofynnir amdani wedi'i chyfyngu i dystiolaeth o gymwysterau, wybodaeth neu brofiad eraill o dan Reol 6(d), gall y cofrestrydd ganiatáu'r cais i gofrestru, ond ni fydd yn cynnwys cofnod yn y gofrestr yn unol ag adran 91(1)(c) y Ddeddf hyd nes bod y cyfryw dystiolaeth wedi'i darparu.
- (3) Pan fo'r cofrestrydd yn gwrthod dau gais i gofrestru a wnaed gan ymgeisydd o fewn cyfnod o 12 mis, ni chaniateir gwneud cais arall i gofrestru cyn pen dwy flynedd o'r dyddiad y gwrthodwyd y cais diweddaraf.

² Bydd y gofynion llawn yn dibynnu ar is-ran y gofrestr y mae'r gweithiwr yn gwneud cais amdani a phryd y maent yn gwneud cais. O fis Ebrill 2020, bydd angen i bob gweithiwr sy'n gwneud Lefel 2. d cais i gofrestru nad oes ganddo'r cymhwyster gofynnol gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chymhwyster craidd

O 1 Ebrill 2018, bydd angen i bob gweithiwr newydd gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd unrhyw Weithiwr Gofal PreswylMedi 2018. Plant newydd sy'n cychwyn y Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol i Gymru ar neu cyn 31 Mawrth 2018 yn gallu defnyddio hyn ar gyfer eu cais cofrestru tan 30

Hysbysiad o benderfyniadau mewn perthynas â chais i gofrestru

14. (1) Pan fo'r cofrestrydd yn penderfynu cymeradwyo cais i gofrestru, rhaid i'r cofrestrydd roi hysbysiad i'r ymgeisydd o'r penderfyniad yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, cyn pen saith niwrnod o wneud y penderfyniad.
- (2) Pan fo'r cofrestrydd yn penderfynu gwrthod cais i gofrestru, rhaid i'r cofrestrydd roi hysbysiad i'r ymgeisydd:
- (a) o'r penderfyniad;
 - (b) o'r rhesymau dros y penderfyniad; ac
 - (c) o'r hawl i apelio i'r panel apelau cofrestru
- yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen saith niwrnod o wneud y penderfyniad.
- (3) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig a chyn pen saith niwrnod o'r penderfyniad:
- (a) cyflogwr(wyr) hysbys diwethaf yr ymgeisydd (os oes un/rhai);
 - (b) y brifysgol, pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol;
 - (c) Llywodraeth Cymru;
 - (d) unrhyw gorff rheoleiddiol.

RHAN III

Adnewyddu Cofrestriad

Adnewyddu cofrestriad a myfyrwyr gwaith cymdeithasol

15. (1) Ni fydd y rheol hon yn gymwys i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Ffurf a modd y cais i adnewyddu

16. (1) Gwneir cais i adnewyddu cofrestriad i'r cofrestrydd mewn ffurf a gymeradwyr gan Ofal Cymdeithasol Cymru sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.
- (2) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr gofal preswyl i blant neu gweithiwr gofal cartref cymdeithasol, at ddibenion cymeradwyo'r cais, rhaid iddo gael ei gydarwyddo (neu ei gadarnhau drwy broses electronig):
- (a) gan gyflogwr, pan fo'r ymgeisydd mewn gwaith; neu
 - (b) gan gyn-gyflogwr gofal cymdeithasol neu berson arall sy'n dderbyniol i'r cofrestrydd fel un sy'n addas i ddarparu cymeradwyaeth o'r fath, pan fo'r ymgeisydd yn hunangyflogedig, wedi ei gyflogi gan aelod o'r teulu neu pan na fydd yn gyflogedig;
- (3) Rhaid i gais gael ei lofnodi gan yr ymgeisydd neu ei gadarnhau gan yr ymgeisydd drwy broses electronig.
- (4) Rhaid cyflwyno cais i'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae rheolau 5, 6(1), 7 ac 8 yn gofyn amdani fel ei bod yn cyrraedd Gofal Cymdeithasol Cymru nid llai nag 21 diwrnod cyn y dyddiad pan ddaw'r cofrestriad i ben.

Y wybodaeth i'w darparu i'r ymgeisydd

17. (1) Bydd y cais i adnewyddu cofrestriad a ddyroddir gan y cofrestrydd yn cynnwys y wybodaeth a amlinellir yn Rheol 4 uchod.

Y wybodaeth i'w darparu yn y cais gan yr ymgeisydd

18. (1) Yn y cais i adnewyddu cofrestriad, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth a amlinellir yn rheolau 5 (enw, cyfeiriad etc.) ac 8 (bwriad i ymarfer) uchod.

Tystiolaeth o gymwysterau a'r hyfforddiant sy'n ofynnol i adnewyddu

19. (1) Pan fo'r ymgeisydd yn berson y caniatawyd ei gais i gofrestru o dan reol 6(6) neu (10), rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth wedi'i lofnodi (neu wedi'i chadarnhau drwy broses electronig) gan gyflogwr yr ymgeisydd neu, pan na fo'r ymgeisydd yn gyflogedig, gan gyn-gyflogwr, bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ar gyfer y disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'r ymgeisydd yn dymuno gweithio ynddo.

- (2) Pan fo'r ymgeisydd yn berson sy'n dod o fewn rheol 6(7), rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth, wedi'i llofnodi (neu wedi'i chadarnhau drwy broses electronig) gan gyflogwr yr ymgeisydd neu, pan na fo'r ymgeisydd yn gyflogedig, gan gyn-gyflogwr, bod yr ymgeisydd wedi cwblhau:
- a) rheolwyr gwasanaethau gofal cartref - Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon ac ar gyfer rheolwyr gwasanaethau gofal yn y cartref – Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoli Oedolion neu Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon
 - b) bydd yn ofynnol ar weithwyr gofal yn y cartref sydd yn cofrestru wedi cwblhau'r gweithlyfrau i gyflawni un o'r canlynol o fewn eu cyfnod tair mlynedd cyntaf o gofrestru:
 - Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu
 - Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu
 - Os yn gweithio gyda plant – Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon
- (3) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol y mae Atodlen 5 yn gymwys iddo, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi cwblhau rhaglen gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso neu wedi cwblhau'r cyfryw hyfforddiant ychwanegol fel y bo'n ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru neu y mae'n ei ystyried yn hyfforddiant cyfatebol.
- (4) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o gwblhau'r gofynnon hyfforddi a dysgu ôl-gofrestru a amlinellir yn Atodlen 4.

Ffioedd

20. (1) Rhaid i'r ffi neu'r ffioedd priodol fel y'u pennir yn Atodlen 3 gyd-fynd â'r cais, gan gynnwys talu unrhyw ffi/ffioedd blynyddol sy'n ddyledus, sy'n ymwneud â'r cyfnod ers y dyddiad pan gofrestrwyd yr ymgeisydd.

Cydnabod cael cais i adnewyddu cofrestrriad

21. (1) Bydd cydnabyddiaeth o gael cais i adnewyddu cofrestrriad yn cael ei darparu i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen tridiau o gael y cais.

Gofyniad am wybodaeth ychwanegol

22. (1) Caiff y cofrestrydd, at ddibenion penderfynu ar y cais:

- (a) pan na fydd yr ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth am un neu fwy o'r materion a amlinellir yn Rheol 18, ofyn am y wybodaeth oddi wrth yr ymgeisydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen y cyfnod 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl rhoi'r cais i'r ymgeisydd; neu
 - (b) ofyn am wybodaeth sy'n ychwanegol i'r hyn a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, oddi wrth yr ymgeisydd ac unrhyw berson neu ffynhonnell arall.
- (2) Pan fo'r cofrestrydd yn cael gwybodaeth o dan baragraff (1)(b) uchod, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd fod y wybodaeth wedi dod i law, a bydd y cofrestrydd yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd roi sylwadau ar y wybodaeth honno o fewn y cyfnod cyn pen 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl rhoi'r wybodaeth i'r ymgeisydd.

Gwrthod cais i adnewyddu cofrestrriad

23. (1) Rhaid i'r cofrestrydd wrthod cais i adnewyddu cofrestrriad:
- (a) os nad yw'n fodlon bod un neu fwy o'r materion a amlinellir yn Rheolau 18 neu 20 wedi'u bodloni; neu
 - (b) os yw'r ymgeisydd wedi methu â darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn Rheol 22(1)(a).
- (2) Pan na fydd y cofrestrydd yn fodlon bod un neu fwy o ofynion Rheol 19 sy'n berthnasol i'r ymgeisydd wedi'u bodloni, caiff y cofrestrydd:
- (a) wrthod y cais i adnewyddu cofrestrriad; neu
 - (b) os ystyrir bod rhesymau eithriadol dros wneud, caniatáu'r cais i adnewyddu cofrestrriad;
- (3) Pan fo paragraff 2(b) uchod yn gymwys, gall y cofrestrydd ystyried p'un ai i atgyfeirio o dan adran 118 y Ddeddf er mwyn rhoi ystyriaeth ragarweiniol i honiad o amhariad ar addaswydd i ymarfer a/neu adolygu hynny'n barhaus.

Hysbysiad o benderfyniadau mewn perthynas ag adnewyddu

24. (1) Pan fo'r cofrestrydd yn penderfynu caniatáu cais i adnewyddu cofrestrriad, rhaid i'r cofrestrydd roi hysbysiad i'r ymgeisydd o'r penderfyniad yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, cyn pen saith niwrnod o wneud y penderfyniad.
- (2) Pan fo'r cofrestrydd yn penderfynu gwrthod cais i adnewyddu cofrestrriad, rhaid i'r cofrestrydd roi hysbysiad i'r ymgeisydd:
- (a) o'r penderfyniad;
 - (b) o'r rhesymau dros y penderfyniad; ac
 - (c) o'r hawl i apelio i'r panel apelau cofrestru

yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen saith niwrnod o wneud y penderfyniad.

- (3) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig a chyn pen saith niwrnod o wneud y penderfyniad:
- (a) cyflogwr(wyr) hysbys diwethaf yr ymgeisydd (os oes un/rhai);
 - (b) Llywodraeth Cymru;
 - (c) unrhyw gorff rheoleiddiol.

RHAN IV

HYD A DARFODIAD COFRESTRIAD

25. (1) Yn ddarostyngedig i ddileu o dan Ran VI neu o dan y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer, bydd cofnod y person cofrestredig ar y gofrestr yn parhau mewn grym:
- (a) pan fo'r person cofrestredig yn weithiwr cymdeithasol neu'n weithiwr gofal cymdeithasol, am dair blynedd o ddyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu'r cais i adnewyddu cofrestriad gan Ofal Cymdeithasol Cymru; neu
 - (b) yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan fo'r person cofrestredig yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol:
 - (i) tra bo'r person cofrestredig yn parhau i ymgymryd â'r cwrs neu'r rhaglen gymhwyso;
 - (ii) am gyfnod y cwrs neu'r rhaglen gymhwyso; neu
 - (iii) am wyth blynedd o ddyddiad caniatáu'r cais i gofrestru gan Ofal Cymdeithasol Cymru, pa un bynnag sydd gynharaf.
- (2) Pan fo'r person cofrestredig yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, caiff Gofal Cymdeithasol Cymru ymestyn hyd y cofrestriad at ddiben caniatáu i'r person cofrestredig gwblhau'r cwrs gradd.
- (3) Yn ddarostyngedig i adran 87(3) a (4) y Ddeddf, bydd cofrestriad yn darfod:
- (a) ac eithrio pan fo paragraff 1(b) yn gymwys, ar ddiwedd cyfnod tair blynedd o ddyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad yn achos person heblaw myfyriwr gwaith cymdeithasol;
 - (b) ar ddiwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff 1(b) (i), (ii) neu (iii), pa un bynnag sy'n gynharaf, neu, os bydd yn ddiweddarach, ar ddiwedd estyniad a ganiateir o dan baragraff (2), yn achos myfyriwr gwaith cymdeithasol.
- (4) O leiaf 28 diwrnod cyn diwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(a) uchod, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn anfon y canlynol at y person cofrestredig yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig:
- (a) nodyn sy'n atgoffa bod cofrestriad yn dod i ben; a
 - (b) ffurflen gais neu'r modd o wneud cais yn electronig i adnewyddu cofrestriad.
- (5) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru anfon y nodyn sy'n atgoffa bod cofrestriad yn dod i ben, y cyfeirir ato ym mharagraff (4), yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig at gyflogwr neu gyflogwr diwethaf hysbys (os oes un) y person cofrestredig.
- (6) Os bydd cais i adnewyddu cofrestriad sy'n cynnwys yr holl wybodaeth y mae rheolau 5, 6(1), 7, 8 ac 16 yn gofyn amdani yn cyrraedd Gofal Cymdeithasol Cymru lai nag 21 diwrnod cyn y dyddiad pan ddaw'r cofrestriad i ben, gallai'r cofrestriad ddarfod cyn i'r cais i adnewyddu orffen cael ei ystyried.

- (7) Pan fo'r person cofrestredig yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, gall y cofrestrydd ei gwneud hi'n ofynnol i'r person cofrestredig ddarparu cadarnhad a thystiolaeth ei fod yn parhau i ymgymryd â'r cwrs neu'r rhaglen gymhwyso, cyn pen 28 diwrnod o'r cais.
- (8) Os na ddaw ymateb boddhaol gan y person cofrestredig i law yn dilyn cais a wnaed o dan baragraff (7), gall y cofrestrydd ddyfarnu bod cofrestriad y person cofrestredig wedi darfod.

RHAN V

DYLETSWYDD I HYSBYSU'R COFRESTRYDD O NEWIDIADAU I WYBODAETH GOFRESTRU

26.

- (1) Rhaid i berson cofrestredig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, o unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a gofnodir yn y gofrestr mewn perthynas â'r person hwnnw.
- (2) Mae'r newidiadau y mae angen hysbysu yn eu cylch yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarperir wrth wneud cais i gofrestru neu gais i adnewyddu cofrestriad ac mae'n cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol yn rheolau 5(1)(a) ac (c), a rheolau 7 ac 8.
- (3) Pan fo'r hysbysiad yn gofyn am newid i enw'r person ar y gofrestr, caiff y cofrestrydd ofyn bod tystiolaeth yn cael ei gynhyrchu i fodloni Gofal Cymdeithasol Cymru ynghylch cywirdeb y wybodaeth i'w chofnodi ar y gofrestr, a gall ei gwneud hi'n ofynnol i'r person cofrestredig sy'n gwneud y cais i gynhyrchu Affidafid, tystysgrif priodas neu'r cyfryw dystiolaeth ddogfennol arall ag y bo Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei hystyried yn briodol mewn unrhyw achos.
- (4)
 - (a) Caiff y cofrestrydd ofyn am wybodaeth oddi wrth berson cofrestredig sy'n ymwneud â'i addasrwydd i ymarfer.
 - (b) Rhaid i gais a wneir o dan baragraff (a) gael ei wneud yn ysgrifenedig (a all gynnwys drwy broses electronig).
 - (c) Rhaid i'r person cofrestredig y cyfeirir y cais ato, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn y cyfnod a bennir yn y cais ysgrifenedig, ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani.
- (5) Caiff methu â chydymffurfio â pharagraff (1), (2), (3) neu (4) ei ystyried yn gamymddwyn difrifol ac arwain at atgyfeirio'r person cofrestredig i banel addasrwydd i ymarfer.

RHAN VI

DILEU COFNODION O'R GOFRESTR

Dileu cofnodion o'r gofrestr drwy gytundeb

27. (1) Caiff person cofrestredig nad yw'n dymuno ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol mwyach mewn perthynas â'r disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae wedi ei gofrestru ar ei gyfer wneud cais i ddileu cofnod o'r gofrestr neu o ran o'r gofrestr.
- (2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) i (8), pan fo person cofrestredig yn gwneud cais i ddileu ei gofnod o'r gofrestr neu o ran o'r gofrestr, bydd y cofrestrydd yn dileu'r cofnod hwnnw o'r gofrestr.
- (3) Rhaid gwneud cais i'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig a rhaid cynnwys enw'r person cofrestredig, y rhif cofrestru, y rheswm dros ddileu cofnod o'r gofrestr a manylion cyswllt.
- (4) Caiff y cofrestrydd, at ddibenion penderfynu ar y cais, ofyn am wybodaeth sy'n ychwanegol i'r hyn a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, oddi wrth yr ymgeisydd ac unrhyw berson neu ffynhonnell arall.
- (5) Pan fo'r cofrestrydd yn cael gwybodaeth o dan baragraff (4) uchod, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd fod y wybodaeth wedi dod i law, a bydd y cofrestrydd yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd roi sylwadau ar y wybodaeth honno o fewn y cyfnod cyn pen 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl rhoi'r wybodaeth i'r ymgeisydd.
- (6) Ni chaiff y cofrestrydd dileu cofnod person cofrestredig o'r gofrestr neu ran o'r gofrestr yn unol â pharagraff (1):
 - (a) pan fo unrhyw amgylchiadau yn adran 87(3) a(4) y Ddeddf yn gymwys i'r person hwnnw; neu
 - (b) pan fo ymgymeriadau yn gymwys i'r person hwnnw.
- (7) Pan fo paragraff (5) yn gymwys, caiff y cofrestrydd atgyfeirio'r cais i banel addasrwydd i ymarfer ddyfarnu yn ei gylch.
- (8) Caiff y cofrestrydd wrthod dileu cofnod o'r gofrestr trwy gytundeb, pan nad yw'r person cofrestredig wedi talu unrhyw ffioedd sy'n ddyledus fel y'u pennir gan y cofrestrydd.
- (9) Bydd y cofrestrydd yn rhoi hysbysiad o'r penderfyniad i'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen 28 diwrnod o gael y cais, neu cyn pen 56 diwrnod os gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol o dan baragraff (4).
- (10) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu:
 - (a) cyflogwr(wyr) hysbys diwethaf y person cyn-gofrestredig (os oes un/rhai);

- (b) Llywodraeth Cymru;
 - (c) unrhyw gorff rheoleiddiol,
- yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig nad yw'r person cyn-gofrestredig wedi ei gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru mwyach.

Marwolaeth person cofrestredig

28. (1) Pan fo person sydd wedi ei gofrestru mewn rhan o'r gofrestr wedi marw, rhaid i'r cofrestrydd ddileu'r cofnod yn ymwneud â'r person hwnnw cyn pen 14 diwrnod o gael un neu fwy o'r canlynol:
- (a) copi gwreiddiol neu gopi cywir ardystiedig o dystysgrif farwolaeth; neu
 - (b) hysbysiad ysgrifenedig oddi wrth gyflogwr y person cofrestredig neu, os yw'n fyfyrwr, oddi wrth ddarparwr y cwrs gradd; neu
 - (c) y cyfryw dystiolaeth arall sy'n dderbyniol i'r cofrestrydd.

Cofnodion sy'n seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol

29. (1) Pan fo'r cofrestrydd yn dileu cofnod neu anodiad i gofnod yn y gofrestr o dan adran 94 y Ddeddf, yn ogystal â rhoi hysbysiad i'r person o dan adran 94(4) y Ddeddf, caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu:
- (a) cyflogwr(wyr) hysbys diwethaf y person cyn-gofrestredig (os oes un/rhai);
 - (b) (pan fo'r person cyn-gofrestredig yn fyfyrwr) y brifysgol;
 - (c) Llywodraeth Cymru;
 - (d) unrhyw gorff rheoleiddiol,

yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig nad yw'r person cyn-gofrestredig wedi ei gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru mwyach.

Dileu o'r gofrestr am resymau eraill

30. (1) Pan fo cofrestriad person cofrestredig wedi darfod yn unol â rheol 25(3)(a) neu (b) neu (8), bydd y cofrestrydd yn dileu cofnod y person cofrestredig o'r gofrestr.
- (2) Pan fo cofnod ymgeisydd neu berson cofrestredig wedi ei roi ar y gofrestr yn anghywir, bydd y cofrestrydd yn dileu cofnod y person cofrestredig o'r gofrestr cyn pen deuddydd o gael gwybod am y gwall.
- (3) Pan fo'r panel apelau cofrestru wedi cyfarwyddo y dylai enw'r person cofrestredig gael ei ddileu o'r gofrestr, bydd y cofrestrydd yn dileu cofnod y person cofrestredig o'r gofrestr cyn pen deuddydd o benderfyniad y panel, oni bai bod unrhyw amgylchiadau yn adran 87(3) yn gymwys i'r person hwnnw.
- (4) Pan fo'r cofrestrydd wedi dileu cofnod person cofrestredig o'r gofrestr yn unol â'r rheol hon, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn hysbysu'r canlynol am y penderfyniad yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig a chyn pen saith niwrnod o'r penderfyniad:
- (a) yr ymgeisydd neu'r person cyn-gofrestredig;

- (b) cyflogwr(wyr) hysbys diwethaf yr ymgeisydd neu'r person cyngofrestredig (os oes un/rhai);
- (c) (pan fo'r ymgeisydd neu'r person cyn-gofrestredig yn fyfyrwr) y brifysgol;
- (d) Llywodraeth Cymru;
- (e) unrhyw gorff rheoleiddiol.

RHAN VII

DYCHWELYD I'R GOFRESTR

Cais i ddychwelyd i'r gofrestr

31. (1) Ac eithrio pan fo angen cais i adfer, bydd y paragraffau canlynol yn gymwys i gais i ddychwelyd i'r gofrestr.
- (2) Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn trin cais i ddychwelyd i'r gofrestr fel cais cychwynnol i gofrestru, a bydd darpariaethau rheolau 3 i 11, 13 a 14 yn gymwys, yn ddarostyngedig i baragraffau (3), (4), (5), (6) a (7) isod.
- (3) Rhaid i'r ffi gwneud cais gyd-fynd â chais i ddychwelyd i'r gofrestr, ynghyd ag unrhyw ffi neu ffioedd ychwanegol neu ddyledus (fel y'u hamlinellir yn Atodlen 3) fel y'u pennir gan y cofrestrydd.

Cais yn dilyn methu ag adnewyddu

- (4) Pan fo person a ddilëwyd o'r gofrestr am fethu adnewyddu ei gofrestriad yn gwneud cais, rhaid i dystiolaeth foddhaol o gwblhau gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (fel y'u nodir yn Atodlen 4) gyd-fynd â'r cais. Bydd gofynion Atodlen 4 yn gymwys fel pe bai'r geiriau 'o fewn y cyfnod cofrestru' yn cael eu disodli gan y geiriau 'o fewn y cyfnod o dair blynedd cyn dyddiad y cais i ddychwelyd i'r gofrestr'.

Gweithiwr cymdeithasol sy'n dychwelyd i ymarfer

- (5) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol y mae paragraff 1 o Atodlen 6 yn gymwys iddo, bydd yr ymgeisydd yn darparu'r canlynol mewn cysylltiad â'r cais:
- (a) pan fo'r ymgeisydd yn gwneud cais i gofrestru neu ddychwelyd i'r gofrestru yn dilyn cyfnod o rhwng tair a chwe blynedd pan nad oedd wedi ei gofrestru yn rhan gweithwyr cymdeithasol y gofrestr neu ar gofrestr gyfatebol, tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r gofynion dychwelyd i ymarfer ym mharagraff 2 o Atodlen 6; neu
- (b) pan fo'r ymgeisydd yn gwneud cais i ddychwelyd i'r gofrestr yn dilyn cyfnod o fwy na chwe blynedd pan nad oedd wedi ei gofrestru yn rhan gweithwyr cymdeithasol y gofrestr neu ar gofrestr gyfatebol, tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r gofynion dychwelyd i ymarfer ym mharagraff 3 o Atodlen 6; neu
- (c) pan fo'r ymgeisydd wedi cymhwyso'n weithiwr cymdeithasol dros 6 blynedd cyn dyddiad y cais i gofrestru ac nad yw erioed wedi ei gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol yn rhan gweithwyr cymdeithasol y gofrestr neu ar gofrestr gyfatebol ers y dyddiad cymhwyso, tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r gofynion ym mharagraff 4 o Atodlen 6; ac

- (d) y ffi dychwelyd i ymarfer, fel y cyfeirir ati yn rheol 39(1), yn ogystal â'r ffi neu'r ffioedd y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) uchod.

Hysbysiad o ganiatáu cais i ddychwelyd i'r gofrestr

32. (1) Pan fo'r cofrestrydd yn penderfynu caniatáu cais i ddychwelyd i'r gofrestr, rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru roi hysbysiad o'r penderfyniad i'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen saith niwrnod o ddyddiad y penderfyniad.
- (2) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig a chyn pen saith niwrnod o ddyddiad y penderfyniad:
- (a) cyflogwr(wyr) hysbys yr ymgeisydd (os oes un/rhai);
 - (b) y brifysgol, pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol;
 - (c) Llywodraeth Cymru;
 - (d) unrhyw gorff rheoleiddiol.

Hysbysiad o wrthod cais i ddychwelyd i'r gofrestr

33. (1) Pan fo'r cofrestrydd yn penderfynu gwrthod cais i ddychwelyd i'r gofrestr, rhaid i Gofal Cymdeithasol Cymru roi hysbysiad fel a ganlyn i'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen saith niwrnod:
- (a) hysbysiad o'r penderfyniad;
 - (b) hysbysiad o'r rhesymau dros y penderfyniad; a
 - (c) hysbysiad o'r hawl i apelio i'r panel apelau cofrestru.
- (2) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen saith niwrnod o ddyddiad y penderfyniad:
- (a) cyflogwr(wyr) hysbys yr ymgeisydd (os oes un/rhai);
 - (b) y brifysgol, pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol;
 - (c) Llywodraeth Cymru;
 - (d) unrhyw gorff rheoleiddiol.
- (3) Pan fo'r cofrestrydd yn gwrthod dau gais i ddychwelyd i'r gofrestr a wnaed gan ymgeisydd o fewn cyfnod o 12 mis, ni chaniateir gwneud cais arall i ddychwelyd i'r gofrestr cyn pen dwy flynedd o'r dyddiad y gwrthodwyd y cais diweddaraf.

RHAN VIII

ADFER I'R GOFRESTR

Adfer yn dilyn dileu drwy gytundeb neu ddileu sy'n seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol

34. (1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan wneir cais i adfer o dan adran 96(2) y Ddeddf yn dilyn (dileu drwy gytundeb) neu (ddileu sy'n seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol).
- (2) Rhaid i berson sy'n gwneud cais i gael ei adfer i'r gofrestr o dan baragraff (1) ddarparu i'r cofrestrydd, yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig:
- (a) cais i gofrestru sy'n bodloni gofynion rheolau 5 i 9;
 - (b) pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol y mae paragraff 1 o Atodlen 6 yn gymwys iddo, y dystiolaeth sy'n ofynnol o dan reol 31(5) (fel y bo'n gymwys i'w gais);
 - (c) unrhyw dystiolaeth ddogfennol y dibynnir arni i ategu'r cais.

Adfer yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer

35. (1) Pan wneir cais i adfer i'r gofrestr yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu i'r cofrestrydd, yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig:
- (a) cais i gofrestru sy'n bodloni gofynion rheolau 3 i 9;
 - (b) pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol y mae paragraff 1 o Atodlen 6 yn gymwys iddo, y dystiolaeth sy'n ofynnol o dan reol 31(5) (fel y bo'n gymwys i'w gais);
 - (c) unrhyw dystiolaeth ddogfennol y dibynnir arni i ategu'r cais.

Hysbysiad o ganiatáu cais i adfer i'r gofrestr

36. (1) Pan fo'r cofrestrydd yn penderfynu caniatáu cais i adfer i'r gofrestr yn dilyn cais o dan reol 34 neu 35, rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru roi hysbysiad o'r penderfyniad i'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen saith niwrnod o ddyddiad y penderfyniad.
- (2) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen saith niwrnod o ddyddiad y penderfyniad:
- (a) cyflogwr(wyr) hysbys yr ymgeisydd (os oes un/rhai);
 - (b) y brifysgol, pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol;
 - (c) Llywodraeth Cymru;
 - (d) unrhyw gorff rheoleiddiol.

Hysbysiad o wrthod cais i adfer i'r gofrestr

37. (1) Pan fo'r cofrestrydd yn penderfynu gwrthod cais i adfer i'r gofrestr yn dilyn cais o dan reol 34 neu 35, rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru roi hysbysiad fel a ganlyn i'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen saith niwrnod:
- (a) hysbysiad o'r penderfyniad;
 - (b) hysbysiad o'r rhesymau dros y penderfyniad; a
 - (c) hysbysiad o'r hawl i apelio i'r panel apelau cofrestru.
- (2) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen saith niwrnod o ddyddiad y penderfyniad:
- (a) cyflogwr(wyr) hysbys yr ymgeisydd (os oes un/rhai);
 - (b) y brifysgol, pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol;
 - (c) Llywodraeth Cymru;
 - (d) unrhyw gorff rheoleiddiol.

RHAN IX

FFIOEDD

Ffi gwneud cais a ffi adnewyddu

38. (1) Y ffi sydd i'w chodi am brosesu cais i gofrestru o dan Ran II ("y ffi gwneud cais") fydd y ffi a bennir yn Atodlen 3 i'r Rheolau hyn, yn y golofn ar gyfer y flwyddyn y daw'r cais i law Gofal Cymdeithasol Cymru, ac ni ellir ei had-dalu.
- (2) Y ffi sydd i'w chodi am brosesu cais i adnewyddu cofrestriad o dan Ran III ("y ffi adnewyddu") fydd y ffi a bennir yn Atodlen 3 i'r Rheolau hyn, yn y golofn ar gyfer y flwyddyn y daw'r cyfnod cofrestru presennol i ben, ac ni ellir ei had-dalu.

Ffi flynyddol

39. (1) Y ffi sydd i'w chodi mewn perthynas â chadw yn y gofrestr unrhyw gofrestrriad mewn unrhyw flwyddyn yn dilyn y flwyddyn gofrestru neu'r flwyddyn adnewyddu gyntaf ("y ffi flynyddol") fydd y ffi a bennir yn Atodlen 3 i'r Rheolau hyn, yn y golofn ar gyfer y flwyddyn y bydd y ffi flynyddol yn ddyledus, ac ni ellir ei had-dalu.
- (2) Bydd y cofrestrydd yn anfon hysbysiad yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig at y person cofrestredig, nid llai na 28 diwrnod cyn y dyddiad y mae'r ffi flynyddol yn ddyledus, yn datgan bod y ffi flynyddol yn ddyledus a'r diwrnod y mae'n ddyledus.
- (3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheolau at y dyddiad y mae'r ffi flynyddol yn ddyledus yn gyfeiriad at:
- (a) ben-blwydd y dyddiad pan gafodd y cofnod ei gynnwys gyntaf yn y gofrestr ac ar y dyddiad hwnnw ym mhob blwyddyn ddilynol ac, os gwnaed y cofnod cyntaf ar 29 Chwefror, caiff ei drin fel pe bai wedi'i wneud ar 1 Mawrth;
- (b) pan fo cofnod yn y gofrestr wedi ei ddileu ac yna'n cael ei adfer wedi hynny, pen-blwydd y dyddiad pan gafodd y cofnod ei adfer ac ar y dyddiad hwnnw ym mhob blwyddyn ddilynol ac, os cafodd y cofnod ei adfer ar 29 Chwefror, caiff ei drin fel pe bai wedi'i wneud ar 1 Mawrth.

Ffi dychwelyd i ymarfer

40. (1) Y ffi sydd i'w chodi i alluogi gweithiwr cymdeithasol sydd heb ei gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol yn rhan gweithwyr cymdeithasol y gofrestr neu ar gofrestr gyfatebol ers tair blynedd neu fwy i arddangos ei addasrwydd i ymarfer i'w alluogi i dychwelyd i'r gofrestr ("y ffi dychwelyd i ymarfer") fydd y ffi a bennir yn Atodlen 3 i'r Rheolau hyn, yn y golofn ar gyfer y flwyddyn y daw'r cais i law Gofal Cymdeithasol Cymru, ac ni ellir ei had-dalu.

Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru

Arwel Ellis Owen

29 November 2018

.....
Arwel Ellis Owen
Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru

.....
Dyddiad

ATODLEN 1

CYRSIAU A GOFYNION HYFFORDDIANT I WEITHWYR CYMDEITHASOL

- 1. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystyried bod deiliaid y tystysgrifau a'r llythyron canlynol, neu dystiolaeth arall o hyfforddiant, wedi bodloni'r gofynion o ran hyfforddiant at ddibenion adran 84(a)(iii) y Ddeddf**

Tystysgrif a ddyroddir gan y Sefydliad Gweithwyr Gofal Meddygol (Sefydliad yr Almonwyr gynt).

Tystysgrif neu dystiolaeth arall o gwblhau cwrs a gydnabyddir gan y Sefydliad Gweithwyr Gofal Meddygol (Sefydliad yr Almonwyr gynt).

Tystysgrif neu dystiolaeth arall o gwblhau cwrs a gydnabyddir gan y Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Seiciatryddol.

Tystysgrif Cymhwyster mewn Gwaith Cymdeithasol a ddyroddwyd gan Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol o 1971 i 2002.

Llythyr Cymaroldeb i Dystysgrif Cymhwyster mewn Gwaith Cymdeithasol a ddyroddwyd gan Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol tan 1990.

Tystysgrif mewn Gwasanaeth Cymdeithasol a ddyroddwyd gan Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol o 1975 i 1995.

Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol a ddyroddwyd gan naill ai Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol neu'r Cyngor o 1991 ymlaen.

Rhaglen ar lefel gradd israddedig neu ôl-raddedig mewn gwaith cymdeithasol a gymeradwyir gan Gofal Cymdeithasol Cymru neu gan Gyngor Gofal.

Unrhyw gymhwyster, tystysgrif, llythyron a/neu dystiolaeth arall o hyfforddiant perthnasol neu ymarfer a aseswyd y pennir gan Ofal Cymdeithasol Cymru neu gan Gyngor Gofal arall i fod yn gyfwerth â'r rhai a nodir yn yr Atodlen hon.

ATODLEN 2

CYRSIAU A HYFFORDDIANT I WEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL

Ystyrir bod deiliaid y tystysgrifau canlynol wedi cwblhau'r gofynion hyfforddi ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn perthynas â pob ddisgrifiad o waith gofal cymdeithasol sydd yn ymwneud a'r gofyniad at ddibenion adran 84(b)(ii) y Ddeddf. Mae rhagor o wybodaeth ar cymwysterau'r gorffennol a dderbyniwyd ar gyfer ymarfer a chymwysterau eraill a dderbyniwyd, gan gynnwys y rheini o genhedloedd eraill y DU, i'w weld o fewn y fframwaith Cymwysterau ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant wedi'i rheoleiddio yng Nghymru.

RHEOLWR GOFAL PRESWYL PLANT

Gofynion Cofrestru

Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon

GWEITHIWR GOFAL PRESWYL PLANT

Gofynion Cofrestru

Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon o fewn tair blynedd.

Gall gweithwyr nad sy'n berchen ar un o'r cymwysterau gofynnol wneud cais i gofrestru os byddant yn cwblhau'r fframwaith sefydlu o fewn 6 mis.

RHEOLWR CARTREF GOFAL I OEDOLION

Gofynion Cofrestru

Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon

Hefyd, rhaid i **Nyrs Gofrestredig Lefel Gyntaf** feddu ar naill ai

- Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon
neu

- NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) (a aseswyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol).

Rhaid i **Nyrsys Cofrestredig Lefel Gyntaf** sy'n meddu ar yr NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) hefyd gwblhau Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon cyn adnewyddu eu cofrestriad.

RHEOLWR GOFAL CARTREF (OEDOLION)

Gofynion Cofrestru

Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon

Rhaid i **Nyrs Gofrestredig Lefel Gyntaf** feddu ar naill ai

- Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon

Neu

- NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) (a aseswyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol).

Rhaid i **Nyrsys Cofrestredig Lefel Gyntaf** sy'n meddu ar yr NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) hefyd gwblhau Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon cyn adnewyddu eu cofrestriad.

RHEOLWR GOFAL CARTREF (PLANT)

Gofynion Cofrestru

Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon

Rhaid i **Nyrs Gofrestredig Lefel Gyntaf** feddu ar **naill ai**

- Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon

Neu

- NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) (a aseswyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol).

Rhaid i **Nyrsys Cofrestredig Lefel Gyntaf** sy'n meddu ar yr NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) hefyd gwblhau Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon cyn adnewyddu eu cofrestriad.

GWEITHIWR GOFAL CARTREF

Gofynion Cofrestru

Gweithwyr gofal cartref.

- Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu
- Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu
- *Os yn gweithio gyda plant* – Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon

Gofynion cofrestru rhwng Ebrill 2018 a Ebrill 2020:

Rhwng Ebrill 2018 ac Ebrill 2020, bydd gweithwyr gofal cartref yn gallu cofrestru'n wirfoddol. Er mwyn gwneud, rhaid i weithwyr ddal un o'r cymwysterau sydd wedi'u rhestru yn y Fframwaith Cymwysterau neu, os nad ydynt yn dal un o'r rhain, gallant wneud cais i gofrestru trwy naill ai:

- a) darparu tystiolaeth eu bod wedi cwblhau gweithlyfr Adran 1, Egwyddorion a Gwerthoedd (Oedolion) neu'r gweithlyfr Adran 2, Egwyddorion a Gwerthoedd (Plant a Phobl Ifanc), o'r Fframwaith Sefydlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan (fersiwn 2018), yn llwyddiannus. * Bydd rhaid iddynt cwblhau hyn o fewn chwe mis o gychwyn mewn cyflogaeth.

*Os ydynt yn gweithio gyda plant/pobl ifanc, y modiwl perthnasol bydd Egwyddorion a Gwerthoedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc).

neu

- b) darparu tystiolaeth eu bod wedi cwblhau Cymhwyster Craidd Lefel 2 ar gyfer Sefydlu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn llwyddiannus; neu
- b) yn achos gweithwyr â thair blynedd neu fwy o brofiad o weithio yn y sector, datganiad o gymhwysedd wedi'i lofnodi gan y rheolwr cofrestredig a thystiolaeth o wybodaeth a sgiliau perthnasol i'w ategu.

Mae'r rheini sydd wedi cofrestru ar sail y Cymhwyster Craidd Lefel 2 ar gyfer Sefydlu Gofal Cymdeithasol neu gyda datganiad o gymhwysedd, ddim yn gorfod cwblhau cymhwyster o fewn eu cyfnod tair mlynedd cyntaf o gofrestru ond yn ynghlwm i ofynion hyfforddi a dysgu wedi cofrestru.

Bydd yn rhaid i'r rheini sydd yn cofrestru wedi cwblhau eu gweithlyfrau cyflawni un o'r canlynol o fewn eu cyfnod tair mlynedd cyntaf o gofrestru:

- Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu

- Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu
- Os yn gweithio gyda plant – Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon

ATODLEN 3

FFIOEDD A GODIR GAN GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

Y ffioedd ar gyfer pob rôl	Ffioedd blynyddol yn ôl y flwyddyn (*1 Ebrill i 31 Mawrth)			
	*2018/19	*2019/20	*2020/21	*2021/22
Gweithiwr Cymdeithasol (gwneud cais, adnewyddu a ffi flynyddol)	£50	£60	£70	£80
Gweithiwr Cymdeithasol – Heb gymhwyster o'r DU (gwneud cais)	£350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf dawn os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am hynny)	£350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf dawn os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am hynny)	£350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf dawn os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am hynny)	£350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf dawn os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am hynny)
Rheolwr Gofal Cymdeithasol (gwneud cais, adnewyddu a ffi flynyddol)	£50	£60	£70	£80
Gweithiwr Gofal Cymdeithasol (gwneud cais, adnewyddu a ffi flynyddol)	£15	£20	£25	£30
Myfyriwr Gwaith Cymdeithasol (gwneud cais a ffi flynyddol)	£15	£15	£15	£15
Dychwelyd i Ymarfer	£200	£200	£200	£200

ATODLEN 4

GOFYNION HYFFORDDIANT A DYSGU ÔL-GOFRESTRU

1. Cyn pen y cyfnod cofrestru, rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr gofal cymdeithasol wedi ei gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru gwblhau naill ai 90 awr neu 15 diwrnod o astudio, hyfforddiant, cyrsiau, seminarau, darllen, addysgu neu weithgareddau eraill y byddai disgwyl iddynt yn rhesymol hybu datblygiad proffesiynol y gweithiwr cymdeithasol neu'r gweithiwr gofal cymdeithasol, yn ôl y digwydd, neu gyfrannu at ddatblygiad y proffesiwn yn ei gyfanrwydd.
2. Rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr gofal cymdeithasol sydd wedi ei gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru gadw cofnod o'r cyfryw hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru a gyflawnir ganddo.
3. Mae methiant i gyrraedd anghenion Gofynion Hyfforddiant a Dysgu Ôl-Gofrestru yn achos disgyblu gall fod yn achos addasrwydd i ymarfer gan Gofal Cymdeithasol Cymru.
4. Caiff gweithwyr cymdeithasol sy'n ymgymryd â Rhaglen Gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso (fel y cyfeirir ati yn Atodlen 5) ei defnyddio fel tystiolaeth o gydymffurfio â'r gofynion hyfforddiant a dysgu ôlgofrestru.

ATODLEN 5

RHAGLEN GADARNHAU AR GYFER GWEITHWYR CYMDEITHASOL NEWYDD GYMHWYSO

Rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol a gofrestrwyd gyntaf gyda Gofal Gymdeithasol Cymru a gymhwysodd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2016, o fewn ei gyfnod cofrestru cyntaf, y mae'n gweithio fel gweithiwr cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwnnw, naill ai:

- (1) gwblhau Rhaglen Gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwysu a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru,

neu
- (2) ymgymryd â'r cyfryw hyfforddiant ychwanegol sy'n ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru neu y mae'n ei ystyried yn hyfforddiant cyfatebol.

ATODLEN 6

DYCHWELYD I YMARFER AR GYFER GWEITHWYR CYMDEITHASOL

1. Mae'r Atodlen hon yn gymwys i weithwyr cymdeithasol nad ydynt wedi eu cofrestru yn rhan gweithwyr cymdeithasol y gofrestr neu ar gofrestr gyfatebol am gyfnod o dair blynedd neu fwy ac sy'n gwneud cais i gofrestru yn rhan gweithwyr cymdeithasol y gofrestr neu i ddychwelyd i ran gweithwyr cymdeithasol y gofrestr.
2. Pan fo'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 1 uchod rhwng tair a chwe blynedd, rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol ddarparu tystiolaeth ei fod, o fewn y cyfnod o dair blynedd cyn dyddiad y cais i gofrestru neu i ddychwelyd i'r gofrestr, wedi cwblhau naill ai 180 awr neu 30 diwrnod o astudio, hyfforddiant, cyrsiau, seminarau, darllen, addysgu neu weithgareddau tebyg eraill y byddai disgwyl iddynt yn rhesymol hybu datblygiad proffesiynol y gweithiwr cymdeithasol neu gyfrannu at ddatblygiad y proffesiwn yn ei gyfanrwydd.
3. Pan fo'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 1 uchod yn fwy na chwe blynedd, rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol ddarparu tystiolaeth ei fod, o fewn y cyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad dychwelyd i'r gofrestr, wedi cwblhau naill ai 360 awr neu 60 diwrnod o astudio, hyfforddiant, cyrsiau, seminarau, darllen, addysgu neu weithgareddau tebyg eraill y byddai disgwyl iddynt yn rhesymol hybu datblygiad proffesiynol y gweithiwr cymdeithasol neu gyfrannu at ddatblygiad y proffesiwn yn ei gyfanrwydd.
4. Pan fo'r gweithiwr cymdeithasol wedi cymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol dros chwe blynedd cyn dyddiad y cais i gofrestru ac nad yw erioed wedi ei gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol yn rhan gweithwyr cymdeithasol y gofrestr neu ar gofrestr gyfatebol ers y dyddiad cymhwyso, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ei fod, o fewn y cyfnod o dair blynedd cyn dyddiad y cais i gofrestru, wedi cwblhau naill ai 360 awr neu 60 diwrnod o astudio, hyfforddiant, cyrsiau, seminarau, darllen, addysgu neu weithgareddau tebyg eraill y byddai disgwyl iddynt yn rhesymol hybu datblygiad proffesiynol y gweithiwr cymdeithasol neu gyfrannu at ddatblygiad y proffesiwn yn ei gyfanrwydd.